


Wrth iddynt ddatblygu

Creaduriaid Craff

Beth am 'Chwarae i Ddysgu'?

Anogwch y plant i archwilio'r canlynol:

- Gwisgo fel creaduriaid estron
- Rholio pêl i mewn i'r 'parth cadw', codi'r bêl a rhedeg i mewn i'r 'parth sgorio', yna rholio pêl neu'i thafu dan ysgwydd er mwyn taro gôl/targed mawr. Dylent ddychwelyd i'r 'parth cadw' ac ailadrodd y gweithgaredd
- Rholio/taflu pêl i mewn i'r 'parth cadw', rhedeg i'w chasglu/codi a symud i mewn i'r 'parth sgorio', yna'i thafu dan ysgwydd yn gywir fel bod plentyn mwy medrus neu ymarferwr yn gallu ei dal
- Gosod targedau ar gyfer sawl 'gôl' y gallant eu sgorio o gael tri thro/30 eiliad
- Cofnodi eu hymdrechion â chymorth, gan ddefnyddio system sgorio syml
- Cystadlu yn erbyn y cloc neu geisio curo'u sgôr flaenorol



Adnoddau

- Marcwyr dros dro/marciau sialc
- Bagiau ffa, teganau meddal
- Amrywiaeth eang o beli, gan gynnwys peli cadw'n heini
- Coetiau
- Balŵns
- Cylchoedd
- Targedau mawr, parasiwtiau, waliau, ac ati
- Gwisgoedd, masgiau creaduriaid estron, ac ati
- 'Gardd' wedi'i rhannu'n ddau hanner – 'parth cadw' a 'parth sgorio'

Cwestiynau

- Ar beth rydych chi'n edrych wrth i chi rollo'r bêl?
- Pa 'gôl' yw'r un hawsaf i'w tharo?
- Sut byddwch chi'n gwybod eich bod chi yn y 'parth sgorio'?
- Beth sy'n digwydd pan fyddwch chi'n cystadlu yn erbyn y cloc?

Geiriau allweddol

- Rheolaeth, sgiliau cydsymud
- Rholio, taflu, troeon, ymdrechion
- 'Parth cadw', 'parth sgorio', ymwybyddiaeth ofodol
- Targed, taro, methu, gôl, sgôr
- Anfon

Cyfleoedd i:

- ddatblygu rheolaeth gynyddol ar symudiadau mawr y corff
- adnabod a defnyddio gwahanol ddarnau o offer
- dilyn rheolau syml gêm

Diogelwch a threfn

Sicrhewch:

- bod yr arwyneb yn lân ac yn rhydd o rwystrau
- nad yw'r gwisgoedd yn cyfyngu ar symudiadau'r plant na'u gallu i weld

A allwch chi weld y plentyn?

- Yn datblygu rheolaeth gynyddol ar symudiadau mawr y corff?
- Yn adnabod ac yn defnyddio gwahanol ddarnau o offer?
 - Yn dilyn rheolau syml gêm?

weithiau

gan amlaf

Anogwch y plentyn i:

- ymarfer rholio a thafu – cyfeiriwch at y Cardiau Sgiliau Technegol
- chwarae mewn ‘gerddi’ ar wahân i ddechrau
- trafod pa dargedau a allai fod hawsaf i’w taro, cyn iddo ddechrau
- gweithio gyda phartner fel bod y naill yn helpu’r llall

Anogwch y plentyn i:

- anelu at dargedau llai o faint
- cwblhau curs slalom yn y ‘parth cadw’ cyn mynd i mewn i’r ‘parth sgorio’
- cystadlu yn erbyn plentyn arall mewn ‘gerddi’ cyfagos

Cyfleoedd campus

- Gwybodaeth a Deallwriaeth o’r Byd: Amser a phobl – mesur amser gan ddefnyddio clociau a dyfeisiau mesur syml
- Datblygiad Mathemategol: Trin data – casglu, cofnodi a dehongli data